JAM

Cafwyd JAM (Joio a Moli) arall i'r plant yng ngapel Bethlehem bnawn Mawrth, a diolch unwaith eto am bob cefnogaeth i'r cyfarfod hwn.

Cyhoeddiadau

GOFALAETH

Nos Fercher, Rhagfyr 2: Cyfarfod dan nawdd y Panel Diogelwch yng nghapel Penuel, Bangor am 7.00 o'r gloch.

CEFNYWAUN AC EBENESER

Dydd Sul, Rhagfyr 6: Gwasanaethir am 10.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

CAPEL COCH A NANT PADARN

Dydd Sul, Rhagfyr 6: Gwasanaethir am 10.00 o'r gloch gan Mr Edward Morris Jones, Llandegfan. Cynhelir yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch. Bydd yr oedfa am 5.00 o'r gloch yng ngofal Parti Bytholwyrdd.

REHOBOTH

Dydd Sul, Rhagfyr 6: Gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

BETHLEHEM

Nos Fawrth, Rhagfyr 1: Ffair Nadolig yn y festri am 6.30 o'r gloch.

Dydd Sul, Rhagfyr 6: Yr Ysgol Sul am 10.00 o'r gloch, ac oedfa am 2.00 o'r gloch yng ngofal y Parchg Cledwyn Williams, Bangor.

CARMEL

Dydd Llun, Tachwedd 30: Dosbarth Gwau yn y festri rhwng 2.00 a 4.00 o'r gloch.

Nos Wener, Rhagfyr 4: Cynhelir 'Dwylo Prysur' am 6.30 o'r gloch.

Dydd Sul, Rhagfyr 6: Yr Ysgol Sul am 10.30 o'r gloch. Oedfa Gymun am 5.00 o'r gloch dan arweiniad y Gweinidog.

CYNLLUN EFE

Dydd Mawrth, Rhagfyr 1: Cynhelir cyd-gyfarfod o ymddiriedolwyr Cynllun Efe a Trobwynt yng nghapel Caeathro am 5.00 o'r gloch.

Dydd Gwener, Rhagfyr 4: Bydd y Cyfarfod Gweddi yn 'Cartref', Caeathro am 10.30 o'r gloch.

Y mis nesaf - Deiniolen

Tachwedd 29
5.00 p.m. - Y Parchg Dafydd Ll Hughes

Rhagfyr 6
10.00 a.m. - Y Gweinidog

Rhagfyr 13
5.00 p.m. - Y Parchg Gwyndaf Jones

Y mis nesaf - Llanberis

Tachwedd 29
10.00 a.m. - Mr Ifor Glyn
11.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Y Parchg W Williams

Rhagfyr 6
10.00 a.m. - Mr Edward Morris Jones
11.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Oedfa Nadolig
yng ngofal aelodau Parti Bytholwyrdd

Rhagfyr 13
10.00 a.m. - Y Gweinidog
11.15 a.m. - Ysgol Sul
4.00 p.m. - Oedfa Garolau Undebol yn Eglwys Sant Padarn

Gronyn

Taflen wythnosol Gofalaeth Fro'r Llechen Las
Rhif 660: Dydd Sul, 29 Tachwedd, 2015

Dim crefydd?

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru yn ddiweddar ddadansoddiad o'r hyn a ddangosai Cyfrifiad 2011 am grefydd yng Nghymru. O gymharu â Chyfrifiad 2001 (gyda 2.1 miliwn o bobl, neu 71.9% o'r boblogaeth yn nodi mai Cristnogaeth oedd eu crefydd) 1.8 miliwn (neu 57.6% o'r boblogaeth) oedd yn dweud hynny yn 2011. Dros yr un degawd, gwelwyd cynnydd yn nifer y bobl sy'n arddel 'dim crefydd', o 500,000 (neu 18.5% o'r boblogaeth) yn 2001 i 980,000 (neu 32.1% o'r boblogaeth) erbyn 2011.

Mae'r ffigurau'n dangos gostyngiad o 14.3% yng nghanran y boblogaeth sy'n arddel y Ffydd Gristnogol (o 71.9% i 57.6%) a chynnydd o 13.6% yng nghanran y boblogaeth sy'n nodi nad ydynt yn arddel yr un grefydd (o 18.5% i 32.1%). Gan fod y ddau ffigur (14.3% a 13.6%) mor agos i'w gilydd gellid tybio mai'r esboniad syml fyddai fod y ganran honno o'r boblogaeth wedi 'symud' oddi wrth Gristnogaeth at 'ddim crefydd' rhwng 2001 a 2011. Ond nid yw mor syml â hynny wrth gwrs oherwydd y newidiadau a fu yn y boblogaeth ei hun dros y degawd.

Yn naturiol, mae pobl yn ymateb i'r ffigurau hyn mewn ffordd wahanol iawn. Mae'r gostyngiad yn nifer y bobl sy'n arddel Cristnogaeth yn loes calon i lawer ond yn fêl ar fysedd eraill. Fedr yr un Cristion fod yn llawen iawn o weld ystadegau sy'n awgrymu fod llai o bobl yn arddel 'y Ffydd a roed un waith i'r saint'. Ac eto, rhaid gofyn ai peth drwg mewn gwirionedd yw'r ffaith fod mwy o bobl yn dweud nad ydynt yn arddel yr un grefydd. Oni allwn ninnau Gristnogion ddiolch fod mwy o bobl Cymru yn cydnabod nad ydynt yn glynu wrth yr un grefydd, hyd yn oed os oedd llawer ohonynt ddegawd yn ôl yn nodi ar ffurflen y Cyfrifiad mai 'Cristnogaeth' oedd eu crefydd?

Ers blynyddoedd, mae cenedlaethau o bobl Cymru wedi cymryd yn ganiataol fod Cristnogaeth yn grefydd iddyn nhw. Er na fu'r Ffydd ar y gorau ond ar ymylon eu bywydau, mae cynifer o bobl wedi credu fod teulu a magwrfa a diwylliant wedi eu gosod yn ddiogel o fewn y gorlan Gristnogol. Mae'n bosibl nad oedden nhw'n credu fawr ddim y mae'r Beibl yn ei ddweud, ac nad oedd ganddyn nhw fawr o feddwl o Iesu Grist na'i ddysgeidiaeth. Ond er gwaethaf hynny doedden nhw yn eu tyb eu hunain ddim llai o Gristnogion na neb arall.

Os yw Cyfrifiad 2011 yn awgrymu fod canran sylweddol o boblogaeth Cymru yn sylweddoli erbyn hyn nad ydynt o reidrwydd yn Gristnogion oherwydd dylanwadau teuluol a diwylliannol gall fod yn newyddion arbennig o dda i bobl y Ffydd. Gall pobl sy'n cydnabod nad ydyn nhw'n credu'r Efengyl fod yn llawer mwy agored i'w hystyried a'i derbyn. Wedi'r cwbl, onid galw'r rhai claf yn hytrach na'r rhai iach a wnaeth ein Gwaredwr?

Gofalaeth Fro'r Llechen Las

Cefnywaun (P), Deiniolen
Ebeneser (A), Deiniolen
Capel Coch (P), Llanberis
Nant Padarn A), Llanberis
Rehoboth (P), Nant Peris
Bethlehem (A), Talybont
Carmel (A), Llanllechid

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd
Ffôn: 01286 872390
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:
gronyn.wordpress.com
neu gronyn.org

Heddiw

Croeso cynnes i oedfaon y Sul. Boed bendith Duw ar ein haddoliad.

Gwasanaethir yn Capel Coch am 10.00 o'r gloch gan Mr Ifor Glyn Efans, Capel Curig ac am 5.00 o'r gloch gan y Parchg W R Williams, Y Felinheli. Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch.

Bydd yr oedfa yn Neiniolen am 5.00 o'r gloch yng ngofal y Parchg Dafydd Lloyd Hughes, Caernarfon.

Bydd yr Ysgol Sul yn Llanllechid am 10.30 o'r gloch. Bydd yr oedfa am 5.00 o'r gloch yng ngofal Deri a Megan Tomos.

Cynhelir yr Ysgol Sul yn Nhalybont am 10.00 o'r gloch a gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Parchg Gareth Edwards, Cyffordd Llandudno.

Ni fydd oedfa yn Nant Peris.

Diolch i bawb sy'n arwain yr addoliad yn ein plith heddiw.

Cofion

Anfonwn ein dymuniadau gorau at bawb sydd heb fod yn dda eu hiechyd.

Angladd

Cynhaliwyd gwasanaeth angladd Mrs Gwyneth Roberts, Merddyn Coch, Llanberis yn Capel Coch a Mynwent Nant Peris ddydd Iau, Tachwedd 26. Gwasanaethwyd gan y Gweinidog, a chyflwynwyd teyrnged i'w mam ar ran y teulu gan Catrin. Mrs Bethan Holding oedd yr organydd.

Bu farw Mrs Roberts ddydd Sadwrn, Tachwedd 21, yn Ysbyty Gwynedd yn 81 mlwydd oed. Cydymdeimlwn â'i phriod Mr Idwal Lloyd Roberts, a'r plant, Elen, Arwel, Medwyn, Alwyn a Catrin a'u teuluoedd hwythau, ac â'i chwiorydd, Bet, Beryl a Jane, a'r teulu cyfan yn eu colled.

Yn gyntaf ac yn bennaf, dynes ei theulu oedd Mrs Gwyneth Roberts: gwraig, mam a mam yng nghyfraith, nain a hen nain, a chwaer ffyddlon a llawn cariad i bob aelod o'i theulu. Roedd yn wraig annwyl ac addfwyn, yn hwyliog a chroesawgar, yn barchus a glân ei byw, yn ofalus iawn o'i phlant a'u hwyrion a'u hwyresau. Roedd y teulu'n golygu popeth iddi, ac yr oedd wrth ei bodd yn cael cwmni'r plant a'u teuluoedd ar ei haelwyd ym Merddyn Coch bob amser. Roedd yn mwynhau gwarchod yr wyrion a'r wyresau bob cyfle posibl.

Bu hefyd yn driw iawn i'w chwiorydd a'i diweddar frawd a'u teuluoedd, a bu'n gefn iddynt ar hyd y blynyddoedd mewn gwahanol amgylchiadau.

Cafodd hi ac Idwal drigain mlynedd o fywyd priodasol dedwydd, â'u perthynas glos a chariadus yn addurn i'w bywyd. Parodd y gofal a'r cariad, y cydweithio a'r cyd-gynnal i'r diwedd trwy wendid a llesgedd y blynyddoedd diwethaf hyn. Dymunwn i'r teulu cyfan nerth a chysur yr Efengyl yn eu colled a'u hiraeth.

Bedydd

Yn ystod yr oedfa yng nghapel Carmel, Llanllechid brynhawn Sul diwethaf, Tachwedd 22 bedyddiwyd Hari Gwilym Williams, mab bychan Keith a Rhian Williams, Tregarth. Roedd yr oedfa yng ngofal y Gweinidog. Dymunwn fendith Duw ar y teulu gan edrych ymlaen fel eglwys at gael rhan ym magwrfa ysbrydol Hari. Gweddiwn y caiff Keith a Rhian bob nerth i fagu eu plentyn bach yn ofn Duw ac yng nghwmni pobl Dduw o fewn yr eglwys.

Cyflwyno Beiblau

Yn ystod yr Oedfa Deulu yn Capel Coch fore Sul diwethaf cyflwynwyd copi o'r gyfrol newydd *beibl.net 360 o storiau o'r Beibl* i deuluoedd yr Ysgol Sul.

Mae hwn yn llyfr arbennig iawn. Dros y blynyddoedd cyhoeddwyd sawl Beibl lliwgar yn Gymraeg i blant, ond dyma'r cyntaf sy'n cynnwys geiriau'r Beibl ei hun yn hytrach nag aralleiriad o storiau'r Beibl.

Mae'n gyfrol hardd iawn, ac os oes rhywun eisiau prynu copi am £10 (yn lle £15) mae gan y Gweinidog ychydig o gopiau i'w gwerthu.

Panel Diogelwch

Cynhelir Noson Hyfforddiant dan nawdd y Panel Diogelwch Plant Cyd-enwadol yng Nghapel Penuel, Bangor am 7.00 o'r gloch nos Fercher, Rhagfyr 2.

Mae'r hyfforddiant wedi ei drefnu ar gyfer athrawon Ysgol Sul, arweinwyr clybiau plant ac ieuenctid, ac unrhyw un sy'n ymwneud ag oedolion bregus o fewn yng ngwaith yr eglwysi. Gobeithio'n fawr y bydd cymaint â phosibl yn medru dod i'r cyfarfod hwn.

Ffair Nadolig

Capel Bethlehem, Talybont

yn y festri
am 6.30 o'r gloch
nos Fawrth, Rhagfyr 1

Croeso cynnes i bawb
Yr elw ar gyfer cronfa'r capel
a chronfa'r Ysgol Sul.

Trefniadau'r Nadolig

Anfonwch fanylion am gyfarfodydd ac oedfaon a gweithgareddau'r Nadolig yn yr eglwysi at y Gweinidog erbyn diwedd yr wythnos os gwelwch yn dda er mwyn eu cynnwys yn Gronyn y Sul nesaf. Bydd modd ychwanegu at y rhestr wedi hynny wrth gwrs ond gorau po gyntaf y gelir eu cyhoeddi. Anfonwch nhw trwy e-bost i **john,cilfynydd@btinternet.com** neu ffoniwch **01286 872390**.

Pwyllgor yr Ofalaeth

Cynhelir Pwyllgor yr Ofalaeth yn y flwyddyn newydd, tua diwedd Ionawr neu ddechrau Chwefror. Gobeithiwn gyhoeddi dyddiad pendant yn Gronyn yr wythnos nesaf.

Cynllun Efe

Cynhelir cyd-gyfarfod o ymddiriedolwyr Cynllun Efe a Trobwynt yng nghapel Caeathro am 5.00 o'r gloch ddydd Mawrth, Rhagfyr 1. Bydd hwn yn gyfle i ni drafod y cydweithio sydd rhwng y ddwy elusen wedi i ni gytuno i ymestyn y cyfle i'n gweithiwr ieuenctid Andrew Settatree wasanaethu Efe a Trobwynt dros y tair blynedd nesaf. Mae'r ddwy elusen yn rhannu'r un nod o gyflwyno'r Efengyl i blant ac ieuenctid eu hardal. Credwn fod y trefniant hwn o fudd i'r ddwy elusen ar hyn o bryd.